

Copyright Notice

Staff and students of this University are reminded that copyright subsists in this extract and the work from which it was taken. This Digital Copy has been made under the terms of a CLA Licence which allows you to:

- Access and download a copy
- Print out a copy

This Digital Copy and any digital or printed copy supplied to or made by you under the terms of this Licence are for use in connection with this module or course of study. You may retain such copies after the end of the course, but strictly for your own personal use.

All copies (including electronic copies) shall include this Copyright Notice and shall be destroyed and/or deleted if and when required by the University.

Except as provided for by copyright law, no further copying, storage or distribution (including by e-mail) is permitted without the consent of the copyright holder.

The author (which term includes artists and other visual creators) has moral rights in the work and neither staff nor students may cause, or permit, the distortion, mutilation or other modification of the work, or any other derogatory treatment of it, which would be prejudicial to the honour or reputation of the author.

Title of extract: **Themau**

Name of Author: **Davies, S.**

Title/Author of book/edition (if applicable): **Pedeir Keinc y Mabinogi. Davies, S.**

Name of Visual Creator or other acknowledgement (if applicable):

Journal details –title/Vol/Year (if applicable):

Publisher: **Gwasg Pantycelyn**

Pages scanned: **46 - 58**

Course of Study (Module name and number): **The Mabinogi CYCS7015**

Name of Designated Person
authorising scanning:

Date authorised: 08.08.13

Moodle/Powerpoint

E.L. Hams

IV THEMÂU

Hyd yma buwyd yn canolbwyntio ar y modd y cyflwynwyd y deunydd — yr arddull a'r adeiladwaith. Bellach trown i edrych ar y deunydd ei hun. Honnir nad cymeriadau a digwyddiadau hanesyddol sydd wrth wraidd *Pedeir Keinc y Mabinogi*, ond yn hytrach, fe'u seiliwyd ar fytholeg y Brythoniaid, er mai olion yn unig o'r fytholeg honno sydd i'w gweld bellach. Cymeriadau mytholegol oedd arwyr y *Pedeir Keinc* yn wreiddiol, meddid — Rhiannon (o *Rigantona 'Brenhines ddwyfol'), a'i chysylltiad arbennig â meirch; Teyrnnon (o *Tigernonos 'Brenin dwyfol'); Lleu, sef Lugh y Gwyddelod a Lugus y cyfandir. Mae'n amlwg bod teulu Dôn yn cyfateb i'r teulu dwyfol hwnnw yn Iwerddon, y Tuatha Dé Danann, a Manawydan yn cyfateb i dduw y môr, Manannan mac Lir. Ni fynnaf oedi i drafod tarddiad mytholegol y cymeriadau, dim ond pwysleisio bwysiced yw hud a lledrith drwy gydol y ceinciau.

Yr Arallfyd a'r goruwchnaturiol

Ym mhob cainc gwelwn ddynion yn dod i gysylltiad â grymoedd arallfydol. Weithiau mae'r cymeriadau arallfydol o gymorth i'r arwr, weithiau yn ei rwystro. Ac yn wir mae deuoliaeth yr arallfyd i'w weld yn amlwg yn y *Pedeir Keinc*. Annwfn, 'y mew-n-fyd', yw'r enw a roddir ar y byd lledrithiol hwn yn *Pwyll*. Yn y gainc gyntaf cyflwynir Arawn fel brenin Annwfn, a Hafgan yn frenin arall yno. Darlun o'r llys perffaith a geir wrth ddisgrifio llys Arawn:

Ac yn y llys ef a welei hundyeu ac yneuadeu, ac ysteuyll a'r ardrn teccaf a welsei neb o adeiladeu . . . Llyma y guelei ef teulu ac yniuroed, a'i niuer hardaf a chyweiraf o'r a welsei neb yn dyuot y mywn, a'r urenhines y gyt ac wynt, yn deccaf gwreic o'r a welsei

neb . . . A threulaw a wnaethant bwynt a llynn a cherdeu a chyuedach. O'r a welsei o holl lyssoed y dayar, llyna y llys diwallaf o uwyt a llynn, ac eur lestri, a theyrn dlysseu.

Sylwer ar yr amrywiad yn y fformiwla yma — yn hytrach na'r ffurf arferol *o'r a welsei ei roed* gyda'r radd eithaf, defnyddir *o'r a welsei o holl lyssoed y dayar* sydd yn atgoffa'r gwrandawyr yn gynnil mai llys arallfydol yw hwn. Ni cheir disgrifio manwl, ond ymgais i greu rhyw ymdeimlad o gyfoeth a llawnder. Gwelir yma hefyd ochr elyniaethus yr arallfyd ym mherson Hafgan. Y ddwy wedd hon a bwysleisir yng ngeiriau un o wŷr Pwyll wrth iddo egluro hynodrwydd Gorsedd Arberth:

'Arglwyd,' heb un o'r llys, 'kynneddyf yr orssed yw, pa dilydauc bynnac a eistedo arnei, nat a odynd heb un o'r deupeth, ay kymriw neu archolleu, neu ynteu a welei ryweddawt.'

Y tro hwn gweld rhyfeddod a wna Pwyll; ond nid yw Manawydan a'i gwmni mor ffodus yn y drydedd gainc — daw poen a gofid i'w rhan hwy. Yn *Branwen* ceir portread mwy manwl o'r arallfyd, er na ddefnyddir yr enw Annwfn yn y gainc hon. Disgrifir dwy wledd arallfydol wrth i'r saith gŵr ddychwelyd â phen Brân i Ynys Prydain. Lleolir y wledd gyntaf yn Harlech a'r ail ar ynys Gwales. Dengys hyn nad oedd lleoliad arbennig i'r arallfyd — gwlad yng nghanol Dyfed yw Annwfn yn y gainc gyntaf, heb unrhyw ffiniau pendant, ac yma yn yr ail gainc rhyw le hyfryd ger y môr ydyw yn y ddau achos. Mae lle amlycach i hud a lledrith yn y disgrifiadau o'r arallfyd yn yr ail gainc, er na cheir unrhyw fanylion. Yn y wledd arallfydol yn Harlech mae cerddoriaeth yn nodweddiadol bwysig:

Ac y gyt ac y dechreuysant wynteu uwyt a chyn, dyuot tri ederyn, a dechreu canu udunt ryw gerd, ac oc a glywssynt o gerd, diuwyn oed pob un iwrthi hi. A fell dremynt oed udunt y guelet uch benn y weilgi allan. A chyn amlyket oed udunt wy a chyn bydynt gyt ac wy.

Adar Rhiannon yw'r rhain yn ôl geiriau Brân, ac fe'u disgrifir yn chwedl *Culhwch ac Olwen* fel 'y rei a duhun y marw ac a huna y byw'. Ceir adar tebyg mewn chwedlau Gwyddeleg am yr arallfyd.

Thema Geltaidd, ac yn wir thema ryngwladol, yw'r

syniad nad yw amser yn cyfrif yn yr arallfyd, ac yr anghofir popeth am y byd dynol:

Ac yr a welsynt o ouut yn y gwyd, ac yr a gewssynt e hun, ny do y gof udunt wy dim, nac o hynny, nac o alar yn y byt. Ac yno y treulysant y pedwarugeint mlyned hyt na wybuant wy eiryoet dwyn yspeit digriuach na hyurydach no honno. Nyt oed anesmwythach, nac adnabot o un ar y gilyd y uot yn hynny o amser, no fan doethan yno.

Yn aml iawn os bydd yr arwr yn dychwelyd i'r byd hwn, yna fe fydd henaunt yn ei orchfygu fel yn hanes Osian yn Nhir na 'Nog. Bryd arall collir yr hud os cyflawnir rhyw weithred waharddedig. Agor y drws yw'r weithred hon yn *Branwen*:

Ac yny agoroch y drws parth ac Aber Henuelen, y tu ar Gernyw, y gellwch uot yno a'r penn yn dilwgyr genhwch.

Ceir thema debyg yn y chwedlau llên gwerin am ogof Arthur — os trewir y gloch yn yr ogof lle cwsgr Arthur a'i farchogion, yna deffry'r brenin a rhaid gadael yr ogof am byth.

Cyfyd un cwestiwn diddorol wrth drafod yr arallfyd yn *Branwen* sef lleoliad y byd hwnnw. Yn Iwerddon, ynys yn y môr yw'r arallfyd yn aml, a honno'n diflannu weithiau mewn niwl. Bryd arall gwlad o dan y ddaear ydyw, cymharer yr enw Cymraeg am yr arallfyd — Annwfn — sef, yn ôl un esboniad, cyfuniad o *an* yn golygu 'i mewn' a *dwfn*, 'byd'. Mewn chwedlau llên gwerin Cymraeg mynegir y syniad yn aml fod y tylwyth teg yn byw o dan y ddaear — plant y *dwfn* ydynt. Ar droad y ganrif cofnodwyd chwedl ddiddorol gan Syr John Rhys yn ei *Celtic Folklore* am Blant Rhys Ddwfn, llygriad mae'n debyg o Blant yr Is-Ddwfn. Yn ôl y chwedl roedd y tylwyth teg hyn yn byw ar ynys oddi ar arfordir Dyfed. Dyma leoliad Gwales — Grassholm — hefyd, ac mae'n amlwg fod sawl traddodiad yn cyplysu'r ynys hon â'r arallfyd. Yn ôl adroddiad am Capten John Evans yn y *Pembroke County Guardian* (1896):

Once when trending up the Channel, and passing Grassholm Island, in what he had always known as deep water, he was surprised to see windward of him a large tract of land covered with

a beautiful green meadow. It was not, however, *above water*, but just a few feet *below*, say 2 or 3, so that the grass wavered and swam about as the ripple flowed over it, in a most delightful way to the eye, so that as watched it made one feel quite drowsy. You know, he continued, I have heard old people say there is a floating island off there, that sometimes rises to the surface, or nearly, and then sinks down again fathoms deep, so that no one sees it for years, and when nobody expects it comes up again for a while. How it may be, I do not know, but that it is what they say.

Ac yn ôl y gyfrol *Cambrian Superstitions* (1831):

The Milford Haven folk could see the green Fairy Islands distinctly lying out a short distance from land; and the general belief was that they were densely populated with fairies.

Hynny yw, ar hyd y canrifoedd goroesodd y gred mai mannau o hud a lledrith oedd Gwales a'r ynysodd cyfagos a hyn yn rhyw fath o ddolen gydiol rhwng yr Oesoedd Canol a'r ugeinfed ganrif.

O droi at *Manawydan* ceir bod y gaer arallfydol y tro hwn yn ymddangos yn hollol annisgwyl yng nghanol Dyfed:

Ac yn ol y baed y kerdassant, yny welynt gaer uawr aruchel, a gueith newyd arnei, yn lle ny welsynt na maen, na gueith eiryoet;

Gwrthrychau ysblennydd sydd o fewn y gaer a hyn yn denu Pryderi a'i fam. Ond ochr niweidiol yr arallfyd sydd yma:

Ac ar hynny, gyt ac y bu nos, llyma dwrf arnunt, a chawat o nywl, a chan hynny diffannu y gaer, ac e ymdeith ac wynteu.

Mae Llwyd fab Cil Coed yn defnyddio grymoedd arallfydol i garcharu Rhiannon a'i mab er mwyn dial ar y sarhad a wnaethpwyd ar Gwawl fab Clud yn y gainc gyntaf. Yn y bedwaredd gainc, mae'n debyg, y rhoddir y lle amlycaf i hud a lledrith. Ni cheir yma sôn am Annwfn fel y cyfryw, ond eto mae pob episod o'r gainc hon yn ymwneud â chymeriadau a chanddynt bwerau arallfydol. Trwy hud a lledrith y caiff Gilfaethwy'r cyfle i dreisio Goewin, ac 'o nerth grym ac angerd, a hut a lledrith' y lleddir Pryderi. Dyma ddefnyddio hud at ddibenion anghyfiawn. Ond ymddengys fod modd cyfiawnhau defnyddio hud at ddibenion cyfiawn. Trawsffurfir

Gwydion a Gilfaethwy yn anifeiliaid drwy hudlath y dewin Math fel cosb am eu camweithred. A defnyddia Gwydion ei bŵerau i sicrhau enw, arfau a gwraig i Llew yn wyneb tynged greulon ei fam Aranrhod. Achubir Llew rhag angau drwy ddewiniaeth Gwydion, ac ar ddiwedd y gainc gorfodir Gwydion i gosbi ei greadigaeth ei hun drwy drawsffurfio Blodeuwedd yn dylluan.

Safonau Moesol Priodol

Ymddengys fod thema'r arallfyd a'r brwydro cyson yn erbyn grymoedd arallfydol yn thema ganolog yn *Pedeir Keinc y Mabinogi*. Ochr yn ochr â hyn ceir amryw themâu sydd yn trafod safonau moesol priodol. Wrth edrych ar dystiolaeth y llyfrau cyfraith gwelir fod yr Oesoedd Canol yn gyfnod pryd y rhoddid pwyslais mawr ar natur sarhad a chywilydd, talu iawn a dial. Yn themâu *Pedeir Keinc y Mabinogi* gwelir adlewyrchu syniadau pendant ynglŷn â sut i ymddwyn yn gymdeithasol.

Y Gainc Gyntaf

Ar ddechrau'r gainc gyntaf mae Pwyll yn sarhau Arawn drwy fwydo'r carw i'w gŵn:

'Ny weleis ansyberwyt uwy ar wr,' hep ef, 'no gyrru yr erchwys a ladssei y carw e ymdeith, a llithiau dy erchwys dy hun arnaw; hynny,' hep ef, 'ansyberwyt oed: a chyn nyt ymdialwyf a thi, y rof i a Duw,' hep ef, 'mi a wnaaf o anglot itt guerth can carw.'

Tâl Pwyll iawn am y sarhad drwy newid lle ag Arawn a lladd Hafgan. Ar ôl hyn cleddir y gynnen a thyf cyfeillgarwch rhwng y ddau. Yn ail ran y gainc sarheir Gwawl ddwywaith — yn gyntaf caiff ei sarhau wrth i Riannon drefnu priodi gŵr arall, a hithau eisoes wedi ei rhoi iddo ef. Ni ellir llai na theimlo rhyw gydymdeimlad yma â Gwawl wrth iddo gyfaddef wrth Pwyll:

'Y wreic uwyaf a garaf yd wyt yn kyscu heno genthi . . .'

Fe'i sarheir ymhellach wrth i Bwyll ei dwyllo a'i glymu mewn sach, a'i ryddhau ar yr amod:

na bo ammouyn na dial uyth amdanaw . . .

Y dial hwn yw thema'r drydedd gainc wrth gwrs. Yn rhan olaf *Pwyll*, Rhiannon sydd yn derbyn sarhad gan y

gwragedd wrth iddynt adrodd eu celwyddau. Myn Pwyll lynu at lythyren y gyfraith:

'Nyt oed achaws ganthunt wy y erchi y mi yscar a'm gwreic namyn na bydei plant idi. Plant a wnn i y uot idi hi. Ac nyt yscaraf a hi. O gwnaeth hitheu gam, kymeret y phenyt amdanaw.'

Rhaid iddi hithau dalu am y cam, yn union fel ei gŵr yn yr episod gyntaf. Ceir yma adlais o eiriau Pwyll ar ddechrau'r chwedl pan ddywed wrth Arawn:

'A unbenn,' hep ef, 'o gwneuthum gam, mi a brynaf dy gerennyd.'

Yr eironi yma, wrth gwrs, yw bod Rhiannon yn ddi-euog. Cais berswadio'r gwragedd i ddweud y gwir:

'A druein,' heb hitheu, 'ny chewch un drwc yr dywedut y wirioned.'

Wedi methu, derbynia ei phenyd yn stoicaidd:

A gwedy bot yn degach genthi kymryt y phenyt nog ymdaeru a'r gwraged, y phenyt a gymerth.

Adferir Rhiannon i'w phriod le ar ddiwedd y gainc. Yn ddiddorol iawn ni cheir unrhyw sôn am y gwragedd yma; ni cheir unrhyw awgrym o ddial, nac o gosbi. Mae sarhad yn amlwg yn thema bwysig yn *Pwyll*. Rhoddir sylw yn y gainc hefyd i natur cyfeillgarwch. Dengys Pwyll ei fod yn gyfaill ffyddlon i Arawn drwy beidio â chysgu â'i wraig:

'Oy a Arglwyd Duw,' heb ef, 'cadarn a ungwr y gydymdeithas, a diffleis, a geueis i yn gedymdeith.'

Felly, mewn ffordd eironig, mae'r sarhad gwreiddiol wedi dwyn ffrwyth ac wedi dod â'r ddau gymeriad yn gyfeillion agos.

Yr Ail Gainc

Mae natur sarhad yn elfen ganolog iawn i'r ail gainc, *Branwen*. Y cyntaf i ddioddef yw Efnysien — rhoddir Branwen, ei chwaer, yn wraig i Fatholwch heb ei ganiatâd:

'Ay yuelly y gwnaethant wy am uorwyn kystal a honno, ac yn chwaer y minheu, y rodi heb uyghanyat i? Ny ellynt wy tremic uwy arnaf i,' heb ef.

Trwy anffurfio meirch Matholwch mae Efnysien yn sarhau brenin Iwerddon:

'Dioer,' heb ynteu (h.y. Matholwch), 'pei ys gwypwn, ny down yma. Cwbyl waradwyd a geueis. Ac ny duc neb kyrch waeth no'r dugum ymma . . .'

Yn wir, defnyddir yr un gair — *tremic* — i ddisgrifio'r sarhad hwn hefyd:

' . . . A chyt bo gwaradwyd gennyti ti hynny, mwy yw gan Uendigeituran no chenyt ti, y tremic hwnnw a'r guare.'

Cais Bendigeidfran wneud iawn am y sarhad drwy anrhegu Matholwch a cheir heddwch rhwng y ddwy garfan unwaith eto. Ond wedi dychwelyd i Iwerddon cyfyd y cwestiwn o ddial drachefn:

A hynny yn yr eil ulwydyn, llyma ymodwrd yn Iwerdon am y guaradwyd a gawssei Matholwch yg Kymry, a'r somm a wnathoedit idaw am y ueirch . . . A nachaf y dygyuor yn Iwerdon hys nat oed lonyd idaw ony chaei dial y sarahet.

Anfonir Branwen o ystafell y brenin a'i gorfodi i bobi yn y gegin gan dderbyn bonclust gan y cigydd bob dydd. Croesa Bendigeidfran a'i wŷr i Iwerddon i ddial y sarhad hwn, ond cynigia Matholwch iawn am yr anghyfiawnder:

'Ac y mae Matholwch yn rodi brenhinaeth Iwerdon y Wern uab Matholwch, dy nei ditheu, uab dy chwaer, ac yn y ystynnu y'th wyd di, yn lle y cam a'r codyant a wnaethpwyd y Uranwen . . .'

Nid yw Bendigeidfran yn hollol fodlon ar hyn, ac felly cynigir adeiladu tŷ iddo hefyd, 'peth ny chauas eiryoet ty y ganhei yndaw'. Ond nid dyma ddiwedd y dial. Bwriad y Gwyddelod yw cuddio gwŷr arfog yn yr adeilad er mwyn lladd y Cymry, ond trwy weithred Efnysien llofruddir hwy oll cyn y wledd. Ymddengys felly fod y sarhau a'r dial wedi dod i ben o'r diwedd:

Ac y doeth gwyr Ynys Iwerddon y'r ty o'r neill parth, a gwyr Ynys y Kedyrn o'r parth arall. Ac yn gynebrwydet ac yd eisteddyssant, y bu duundeb y rydunt, ac yd ystynnwyd y urenhinaeth y'r mab.

Ond nid yw Efnysien wedi gorffen — mae am ddinistrio'r mab sydd yn symbol o'r briodas rhwng ei chwaer a brenin Iwerddon, hynny yw, yr ydym yn ôl wrth wraidd yr holl gynnen. Wrth daflu'r mab i'r tân mae Efnysien yn sarhau'r ddwy wlad sydd bellach wedi eu huno ym mherson Gwern. Ond un o'r Cymry yw Efnysien, a phob

gweithred o'r eiddo yn adlewyrchu ar ei dylwyth. Yn hytrach nag ymosod ar Efnysien fel unigolyn, ymosodir ar holl wŷr Ynys y Kedyrn a cheir lladdfa erchyll. Yn rhy hwyr sylweddola Efnysien ganlyniad ei weithred erchyll:

'Oy a Duw,' heb ef, 'guae ui uy mot yn achaws y'r wydwic honn o wyr Ynys y Kedyrn; a meuyl ymi,' heb ef, 'ony cheissaf i waret rac hynn.'

Yn eironig, mae'r pair a roddwyd yn iawndal i Matholwch am sarhad gwreiddiol Efnysien yn gymorth anfeisuradwy i'r Gwyddelod a thrwy ei ddinistrio fe ddinistrir y Gwyddelod hwythau. Ond buddugoliaeth ofer ydyw:

Ac o hynny y bu y meint goruot a uu y wyr Ynys y Kedyrn. Ny bu oruot o hynny eithyr diang seithwyr, a brathu Bendigeiduran yn y troet a guenwynwaew.

Dengys y gainc hon mor ddinistriol yw dial di-ben-draw. Mae rhaid talu am sarhad, ond talu unwaith ac am byth. Efnysien yw catalydd yr holl ddinistr, ond nid yw'r Gwyddelod fymryn gwell yn eu hymddygiad yn ddiweddarach, hynny yw, mae drygioni yn esgor ar ddrygioni. Awgrymwyd o'r dechrau mai gŵr drwg oedd Efnysien — yr oedd dinistr a drygioni yn rhan o'i gymeriad:

A'r neill o'r gueisson hynny, gwas da oed; ef a barei tangneued y rwg y deu lu, ban udynt lidyawcaf; sef oed hwnnw Nissyen. Y llall a barei ymlad y rwng y deu uroder, ban uei uwyaf yd ymgerynt.

Efallai mai'r cwestiwn y dylid ei ofyn ar ddiwedd y gainc hon yw ble yr oedd Nisien?

Y Drydedd Gainc

Ar ôl yr holl ddinistr a thwyll yn *Branwen*, rhyddhad yw darllen *Manawydan* a sylweddoli nad yw'r byd i gyd yn ddrwg. Ar ddechrau'r drydedd gainc, Manawydan sydd wedi dioddef cam fel yr eglura Pryderi:

' . . . Dy geuynderw yssyd urenhin yn Ynys y Kedyrn; a chyn gwnel gameu it,' heb ef, 'ny buost hawlwr tir a dayar eiryoet. Trydyd lledyf unben wyt.'

Mae gan Manawydan wir achos i ddial — sylwer nad *cam* ond y lluosog *cameu* a ddefnyddir yma. Ond nid gŵr i ddial yw Manawydan. Unwaith eto mae'r cwlwm teuluol yn

gryf — ni allai Bendigeidfran gosbi ei hanner brawd Efnysien (yr oedd cosbi un o'r tylwyth yn anghyfreithlon yn ôl cyfraith Hywel) ac yma nid yw Manawydan am ddial ar ei gefnder Caswallon er iddo gyfaddef mai sefyllfa drist ydyw:

'Ie,' heb ef, 'kyt boet keuynderw y mi y gwr hwnnw, goathrist yw genhyf i guelet neb yn lle Bendigeiduran uy mrawt, ac ny allaf uot yn llawen yn un ty ac ef.'

Mae cyfeillgarwch — *cydymdeithas* — yn holl bwysig yn y gainc hon, fel yn y gainc gyntaf. Yn wir ceir adlais o eiriau Arawn wrth Pwyll pan ddywed Manawydan:

'Duw a dalo it dy gydymdeithas.'

a Phryderi yn rhoi saith cantref Dyfed dan ei ofal, a'i fam Rhiannon yn wraig iddo. Pwysleisir y tebygrwydd rhwng y tad a'r mab ymhellach: ar ôl darganfod diweirdeb Pwyll dywed Arawn:

'Oy a Arglwyd Duw,' heb ef, 'cadarn a ungwr y gydymdeithas, a diffleis, a geueis i yn gedymdeith.'

a sylwer yma ar eiriau Manawydan:

'... a Duw a dalo y'r gwr yssyd yn rodi i minheu y gedymdeithas mor difleis a hynny.'

Tyf y cyfeillgarwch rhwng Manawydan a Rhiannon, Pryderi a Chigfa:

Ac yn hynny tyuu kedymdeithas y rydunt yll pedwar, hyt na mynnei yr un uot heb y gilid na dyd na nos.

Ond daw'r hud ar Ddyfed i brofi'r cyfeillgarwch hwn. Yn erbyn cyngor Manawydan, dilyna Pryderi ei gŵn i'r gaer. Cyhuddir Manawydan o anffyddlondeb i'w gyfaill:

'Dioer,' heb y Riannon, 'ys drwc a gedymdeith uuosti, ac ys da a gedymdeith a golleisti.'

Wedi i Riannon a'i mab ddiflannu, mae Cigfa hithau yn dechrau amau Manawydan; ond dengys ei brawd-yinghyfraith ddyfnder ei gyfeillgarwch:

'Dioer,' heb ef, 'cam yd wyt arnaw, os rac uy ouyn i y drygyruerthy di. Mi a rodaf Duw y uach it, na weleisti gedymdeith gywirach noc y keffy di ui, tra uynho Duw it uot uelly.'

Y rof a Duw, bei et uwni yn dechreu uy ieuengtut, mi a gadwn gywirdeb wrth Pryderi, ac yrot titheu mi a'y cadwn; ac na uit un ouyn arnat,' heb ef. 'E rof a Duw,' heb ef, 'titheu a gey y gedymdeithas a uynych y genhyf i, herwyd uyg gallu i, tra welho Duw yn bot yn y dihirwch hwnn a'r goul.'

Cawn adlais yma o'r episod fer ar ddiwedd yr ail gainc, pan adawyd pum gwraig feichiog yn Iwerddon. Fel Dyfed, yr oedd Iwerddon yn ddiffeithwch, a rhaid oedd ailboblogi'r wlad. Gwnaethpwyd hyn drwy i'r meibion gysgu gyda mamau ei gilydd. Yn y drydedd gainc, fodd bynnag, sylweddola Manawydan mai rhywbeth dros dro yn unig yw'r diffieithwch. O sylwi'n fanwl ar ei eiriau uchod gwelir pwyslais diddorol yn cael ei roi ar Dduw. Mae'n amlwg i awdur *Pedeir Keinc y Mabinogi* geisio cadw allan o'i destun unrhyw gyfeiriadau Cristnogol pendant — cais osod ei geinciau yn y gorffennol pell. Fodd bynnag methodd ar brydiau i gadw Cristnogaeth allan o'i ddeunydd, fel y dangosodd Ifor Williams: tynga'r cymeriadau lwon i Dduw; gwneir y gwayw i ladd Lleu pan fyddid *ar yr aberth duw Sul*; daw *yscolheic, offeiraf*, ac *escob* at Fanawydan, a gofyn yntau am eu bendith; rhoir enw adeg *bedydd*, ond ychwanegir mai'r *bedyd a wneit yna* ydoedd. Yng ngeiriau Manawydan, fodd bynnag, ceir rhyw awgrym mai Duw efallai sydd yn gyfrifol am hyn oll. Sylwer yn arbennig ar y geiriau *tra uynho Duw it uot uelly a tra welho Duw yn bot yn y dihirwch hwnn a'r goul*. Yn chwedl *Culhwch ac Olwen*, cymeriad yn y stori yw Duw, yn trawsffurfio dynion yn anifeiliaid oherwydd eu pechod. Yn y *Pedeir Keinc y dewiniaid Llwyd*, Math a Gwydion sydd yn meddu ar bwerau goruwchnaturiol o'r fath. Ond tybed a oes yma awgrym mai Duw sydd yn gyfrifol am roi'r hud ar Ddyfed, neu o leiaf mai gyda chymorth Duw y gorchfygir y sefyllfa? Wedi'r cyfan, trwy ymddygiad Cristnogol Manawydan yr adferir y wlad i'w ffyniant gynt.

Erbyn diwedd y gainc cawn wybod mai dial sydd wrth wraidd yr hanesyn. Diddorol sylwi sut y cyfunir dial a chyfeillgarwch yma:

'Miui yw Llwyd uab Kil Coet, a mi a dodeis yr hut ar seith cantref Dyuet, ac y dial Guawl uab Clut, o *gedymdeithas ac ef y dodeis i yr*

hut; ac ar Pryderi y dieleis i guare broch yghot a Guawl uab Clut, pan y gwnaeth Pwyll Penn Annwn . . .

Gwelir yma, fel yn *Branwen*, sut y gall dial di-ben-draw arwain at ddistryw; fodd bynnag, yn y drydedd gainc mae Manawydan yn trechu'r drygioni ac yn sicrhau heddwch unwaith ac am byth:

'Llyna,' heb ef, 'a uynhaf, na bo ymdiala ar Pryderi a Riannon, nac arnaf inheu, uyth am hynn.'

Mae Llwyd yn rhoi ei air; eto rhoddodd Gwawl ei air na fyddai dial fyth:

' . . . a chymer gedernit y ganthaw na bo ammuyn na dial uyth amdanaw, a digawn yw hynny o gosp arnaw.' 'Ef a geif hynny yn llawen,' heb y gwr o'r got.

Yr awgrym yma, hyd y gwelaf, yw nad ar orchymyn Gwawl y rhoddwyd yr hud ar Ddyfed, hynny yw, cadwodd Gwawl at ei air. Gweithredodd Llwyd yn hollol annibynnol gan ddial oherwydd ei gyfeillgarwch â Gwawl. Wedi'r cyfan, aeth Pwyll yn rhy bell — un peth oedd clymu Gwawl mewn sach ond roedd ei guro a'i gicio'n sarhad o'r mwyaf. Trwy fargeinio'n gelfydd daw Manawydan â'r gynnen i ben heb dywallt diferyn o waed, gwers i bawb ar ôl erchylltra a dinistr yr ail gainc.

Y Bedwaredd Gainc

Mae episod agoriadol *Math* yn ymwneud â sarhad unwaith eto. Yn gyntaf, sarheir Pryderi wrth i Wydion ei dwyllo. Fel canlyniad ceir brwydro a 'llas lladua uawr o pop parth'; dyma ddychwelyd at awyrgylch ddinistriol yr ail gainc. Ond nid yw Pryderi am weld llwyr ddinistr:

. . . gyrru kennadeu o Pryderi y erchi guahard y deulu, ac erchi gadu y ryngtaw ef a Guydyon uab Don, canys ef a baryssei hynny . . . 'Dioer,' heb y kennadeu, 'teg, med Pryderi, oed y'r gwr a wnaeth hynn idaw ef o gam, dodi y gorf yn erbyn y eidaw ynteu, a gadu y deu lu yn segur.'

Sylwer ar y gair *cam* unwaith eto. Ceir yma adlais o'r gainc gyntaf, lle cafwyd sefyllfa debyg:

'A wyrda,' heb ef [sef Hafgan], 'ymwerendewch yn da. Y rwng y deu wrenhin y mae yr oet hwnn, a hynny y rwng y deu gorff

wylldeu . . . A ssegur y digaun pawb o honawch uot, eithyr gadu y ryngthunt wylldeu.'

Mae Pryderi am gael iawn, ond

'nit archaf inheu y neb gouyn uy iawn namyn my hun.'

Yn *Branwen* enillwyd y dydd trwy nerth braich; yn *Manawydan* cafwyd buddugoliaeth trwy gyfrwystra a meddwl craff; yma yn *Math* defnyddia Gwydion hud a lledrith i gael y gorau ar ei wrthwynebydd:

Ac o nerth grym ac angerd, a hut a lledrith, Guydyon a oruu, a Phryderi a las . . .

Ond cafodd Math yntau ei sarhau, fel y caiff wybod gan Goewin:

' . . . A threis arnaf a orugant a chywilyd y titheu, a chyscu a wnaethpwyd genhyf, a hynny i'th ystauell ac i'th wely.'

Ac mae Math yntau am gael iawn:

' . . . Mi a baraf iawn y ti yn gyntaf, ac yn ol uy iawn y bydaf inheu . . .'

Fel y dywed Brynley Roberts:

Trefn gyfiawn deddf a chyfraith a welir yma, fel mewn manau eraill yn y Pedair Cainc; a therm cyfraith yw sarhau, sef niweidio corff neu statws dyn. Wedi sarhad, telir a derbynnir iawn, a dyna gyfiawnder wedi'i fodloni. Ond erys craith, oblegid ymosodir nid yn unig ar statws dyn, ond ar ei urddas fel person; gellir achosi cywilydd iddo. Hon yw thema waelodol *Math*: os gellir talu am sarhad, sut mae gwneud iawn am gywilydd? [*Y Mabinogion*]

Daw Gwydion a Gilfaethwy i wneud iawn o'r diwedd, ond fel y dywed Math:

' . . . Vyg kywilyd ny ellwch chwi y dalu y mi, heb angheu Pryderi . . .'

Fe'u cosbir trwy eu trawsfurfio'n anifeiliaid a pheridid yntau genhedlu plant:

'A wyr,' heb ef [sef Math], 'o gwnaethauch gam ymi, digawn y buawch ym poen, a chywilyd mawr a gawssawch, bot plant o bob un o honawch o'y gilid . . .'

Trwy gymeriad Math gwelwn nad oes modd gwneud iawn am gywilydd, dim ond ei faddau:

LLÊN Y LLENOR

‘A wyr,’ heb ef[sef Math], ‘tangneued a gawsawch, a cherennyd a geffwch . . .’

Cawn enghraifft arall o gywilyddio yn y bedwaredd gainc, sef cywilyddio Lleu. Yr oedd cysgu gyda gwraig briod yn sarhad o'r mwyaf yn yr Oesoedd Canol:

O teyr ford e serheyr pob den en e byt; o tarau a gossot, a duen treys e arnau, ac os gur uyd, o bedyr gan e wreyc, sarhaet yu ydau . . .

Ar ôl adfer ei iechyd, y peth cyntaf a ddaw i feddwl Lleu yw cael iawn:

‘. . . madws oed y mi caffael iawn gan y gwr y keueis ouut gantaw.’

Nid yw'n fodlon derbyn tir nac arian am y sarhad, eithr dengys ychydig o drugaredd tuag at Gronw trwy ganiatáu iddo roi carreg rhyngddo a'r ergyd. Ond nid yw hyn o unrhyw fudd i Gronw ac fe'i lleddir ar lan afon Cynfael. Fe gosbir Blodeuwedd hithau, nid gan ei gŵr ond gan ei chreawdwr Gwydion:

‘Ny ladaf i di. Mi a wnafl yssyd waeth it. Sef yw hynny,’ heb ef, ‘dy ellwng yn rith ederyn. Ac o achaws y kywilyd a wnaethost ti y Lew Llaw Gyffes, na ueidych ditheu dangos dy wyneb lliw dyd byth, a hynny rac ouyn yr holl adar. A bot gelynyaeth y ryinghot a'r holl adar. A bot yn anyan udunt dy uaeu, a'th amherchi, y lle i'th gaffant . . .’

Diddorol sylwi ar y ferf a ddefnyddir yma, sef *maeddu*, hynny yw curo. Defnyddir yr un ferf yn union yn y cyfreithiau wrth sôn am y tri achlysur pan all gŵr guro ei wraig yn gyfreithlon:

Sef yw y tri pheth hynny y dily y maedu: am rodi peth ny dylyho y rodi, ac am y chaffel gan wr, ac am unaw meuel ar y uaraf.

Hoffwn awgrymu fod yr awdur wedi dewis y gair yn fwriadol yma — mae'r adar bellach yn cyflawni'r gosb y disgwyliid i Lleu ei gweithredu.

Ymddengys felly fod yr un themâu yn rhedeg drwy'r holl geinciau, sef natur sarhad a thalu iawn, hynny yw, ymddygiad cymdeithasol gweddus. Mae cyfeillgarwch, cywilydd, a dial yn rhan o hyn oll, a phopeth yn cyfuno i roi i ni agwedd foesol at fywyd. O dan yr holl hud a lledrith mae'r awdur yn cyhoeddi neges oesol ei harwyddocâd.